GRASSLAND DEVELOPMENT CENTRE
CANOLFAN DATBLYGU TIR GLAS

603.01 Pam Defnyddio Chwistrellydd Slyri?

Defnyddio Nitrogen yn Effeithiol

Mae llawer o nitrogen (N) mewn slyri – hyd at 3kg/m^3 – mae hanner hyn ar gael ar unwaith i'r glaswellt ei ddefnyddio. Yn ystod yr haf mae bron y cyfan o'r N sydd ar gael yn cael ei golli i'r atmosffer fel amonia, os yw'n cael ei daenu ar wyneb y tir. Mae chwistrellu slyri i'r pridd yn golygu bod y nitrogen yn cael ei ddefnyddio gan y glaswellt heb gael ei wastraffu.

Faint?

Os fyddech yn chwalu'r 30m^3/ha (2700gl/erw) arferol, byddai hyn yn golygu arbed 25kgN/ha (20 uned/erw). Ar brisiau cyfredol gwrteithiau o £280/t am 34.5% N mae hyn werth **£20/ha neu £8/erw.**

Glaswellt Glân

Yn aml gall chwalu slyri yn yr haf olygu bod y slyri'n llwyr orchuddio'r glaswellt. Golyga hyn bori gwael a derbyniad is, a hefyd y posibilrwydd o gynnwys bacteria annymunol fel clostridia yn 2il doriad y silwair. Mae chwistrellu slyri yn golygu llai o berygl o halogi glaswellt – dychwelyd yn gaeau pori yn gynt a dim pryderon am silwair gwael.

Chwistrellu Cywir

Mae systemau chwistrellu'n dosbarthu'r slyri yn wastad heb berygl o halogi cyrion caeau. Oherwydd mai ychydig iawn o slyri sydd ar y wyneb felly ychydig iawn o berygl sydd iddo redeg oddi ar y tir.

Gwella Patrwm Y Pridd

Gall defnyddio chwistrellydd fod o gymorth i dorri lawr cywasgiad pridd a achoswyd gan beiriannau trwm a sathru. Mae chwistrellu hefyd yn cael gwared â'r niwed i briddoedd a phoblogaethau pryfed genwair a all ddigwydd drwy i slyri gasglu'n byllau ar wyneb y pridd.

Mwy o ddyddiau chwalu

Oherwydd nad ydych yn tagu'r glaswellt ac yn halogi'r glastir gallwch osod y slyri yn nes at y borfa a silwair. Hefyd gan fod chwistrellu'n lleihau'r arogl gallwch roi slyri yn 'ddiogel' heb darfu ar eich cymdogion.

Offer Slyri Arall

Yn ychwanegol i chwistrellwyr bas mae peiriannau **chwistrellu dwfn** sy'n gallu ymdrin â mwy o slyri - ond wedi eu cyfyngu i rai mathau o bridd. Mae gan **Chwalwyr band** bibell i osod y slyri mewn rhesi ar y wyneb. Gellid ond defnyddio hyn yn effeithiol ar laswellt byr ac mae colledion yn dal yn bosibl o'r slyri. Mae peiriannau **Esgid Lusg** ar gyfer glaswellt hirach ac yn gadael slyri mewn llinellau o dan y glastir i osgoi colli amonia. Gellir defnyddio'r peiriant esgid lusg a'r chwalwr band ar unrhyw briddoedd- ond fel y chwistrellwr bas maent wedi eu cyfyngu i o dan tua 35m^3/ha (3200gl/erw).

The Grassland Development Centre, based in IGER, is managed by the Welsh Assembly Government as part of Farming Connect. Caiff y Ganolfan Datblygu Tir Glas, sy'n seiliedig yn IGER, ei rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswlt Ffermio.

GDC, Institute of Grassland and Environmental Research / GDC, Sefydliad Ymchwil Tir Glas ar Amgylchedd
Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB. Dr Heather McCalman, Manager, Tel: 01970 823058/823026.